# y Dinesydd

Cylchgrawn Newyddion Cymraeg Caerdydd Rhif 178 1 Tachwedd 1991 65c i ni — am ddim i chi

# Agwedd y Beverley "yn deg a rhesymol"

Gwrthododd Welsh Brewers achos dwy ferch o Gaerdydd a ddygwyd yn sgîl agwedd gwrth-Gymreig honedig un o'u landlordiaid.

Roedd Manon Jones a Dathyl Evans yn honni bod John Bell, rheolwr gwesty'r Beverley yn Heol y Gadeirlan, wedi gwrthod â gadael iddynt siarad Cymraeg yn y gwesty tra roeddent yno'n gweithio fel casglyddion gwydrau dros yr haf. Dywedodd John Bell ei fod wedi cael cwyn gan gwsmer am y ddwy yn siarad Cymraeg.

Aeth y merched â'r mater i dribiwnlys mewnol Welsh Brewers, a chynhaliwyd gwrandawiadau gydol mis Hydref dan gadeiryddiaeth Mr C Gittins, Rheolwr Gweithgareddau Manwerthu'r cwmni.

Ar ddiwedd y gwrandawiadau cyhoeddodd Welsh Brewers bod "rheolwr y Beverley wedi ymddwyn yn deg a rhesymol" tuag at y merched.

Atebodd Gill Stephen o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, fu'n cynorthwyo Manon a Dathyl yn y tribiwnlys, bod y datganiad hwnnw "gyfystyr â dweud mai celwyddgwn yw'r merched, a bod Welsh Brewers bellach yn gwadu i unrhyw hiliaeth ddigwydd, er iddynt gydnabod i'r gwrthwyneb hyd nawr".

Ychwanegodd hefyd bod yr ymchwiliad wedi bod yn ffars. "Dechreuodd Mr Gittins drwy ddweud na allai ddychmygu John Bell yn cymryd y fath agwedd, a'i fod yn ei adnabod ef a'i wraig ers blynyddoedd". Ategodd hefyd bod agwedd Mr Gittins yn elyniaethus tuag ati oherwydd ei chysylltiadau â Chymdeithas yr Iaith.


Yn eu cyfarfod blynyddol cyffredinol ddydd Sadwrn 19 Hydref, penderfynodd Cymdeithas yr Iaith ymgyrchu'n uniongyrchol ynglŷn â'r mater.

Ar nos Lun 21 Hydref cynhaliwyd y gyntaf o gyfres o bicedi y tu allan i'r Beverley, pan ddaeth dros 20 o brotestwyr at ei gilydd, a pherswadiwyd 24 o bobol i beidio â mynychu'r gwesty.

Gwelwyd gwrthdystiad tebyg y tu allan i un o dafarndai Welsh Brewers yn Abertawe, ac yn ôl Gill Stephen bydd Cymdeithas yr Iaith yn mynd ati i bicedu holl dafarndai'r cwmni yng Nghaerdydd yn eu tro, ynghyd â thafarndai Welsh Brewers a'r grŵp Bass led led Cymru, cyn ystyried cymryd camau pellach.

Mae'r grŵp Bass hefyd yn cynnwys gwesty'r Holiday Inn yng Nghaerdydd sydd wedi wynebu cyhuddiadau o hiliaeth yn y gorffennol.

Y cam nesaf i Manon a Dathyl fydd mynd â'r mater i gymal olaf proses gwynion Welsh Brewers, gyda chymorth Michael Jones, cyfreithiwr gyda chwmni Hugh James Jones & Jenkins, sy'n un o gyfreithwyr cydnabyddedig y mudiad iaith Cefn ac yn gweithio ar ran Cymdeithas yr Iaith. Os fydd y cymal hwnnw'n aflwyddiannus, mae'n fwriad gan Dathyl Evans ddwyn achos cyfreithiol gerbron llys.




Llun: Gareth Morgan, Hills Welsh Press

◆ Yr ymgyrch yn dwysáu yn erbyn Welsh Brewers

Pam talu £19.95?




## Gwyddoniadur y degawd!

*1,000 o dudalennau*
*180,000 o eiriau*
*2,000 o luniau, mapiau, diagramau a ffotograffau*

Dim ond **£13.95** i siopwyr personol yn unig tra pery'r stoc.

Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF1 4AA

ger y New Theatre

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos, 9.00-5.30.
Ar agor yn hwyr ar gyfer siopa Nadolig:

Gwener, **29** Tachwedd 1991
Iau, **5** Rhagfyr 1991
Iau, **12** Rhagfyr 1991
Iau, **19** Rhagfyr 1991

Ar gau 25-27 o Ragfyr 1991

**ORIEL**



## Rali Taro'r Toriaid

**23 Tachwedd am 2pm**
**y tu allan i'r Swyddfa Gymreig**

Branwen Nicholas
GB1510
HMP Drake Hall
Eccleshall
Stafford ST21 6LQ

**ANFONWCH AIR HEDDIW!**

Alun Llwyd
DW0408
HMP Kirkham
Preston PR4 2RA



## KWIK DESPATCH

i gludo dogfennau neu barseli
i unrhyw fan ym Mhrydain
yr un diwrnod

Cysyllter ag:
Alun Parry ar 0222 481015

yr un dydd – bob dydd!



## CROWN & COMPANY


## Cyngor Morgais Proffesiynol

Cysylltwch â Steve Pritchard yn swyddfa Treganna
ar 0222 222344 am gyngor heb ymrwymiaeth

**Pecynnau i bobl sy'n prynu eu cartrefi cyntaf**
**Cyngor ar ail-drefnu morgais**
**Cynlluniau pwrpasol ar eich cyfer chi**

Mae perygl i chi golli'ch cartref [illegible] morgais neu unrhyw fenthyciad arall [illegible].
Crown & Company yw enw masnachu Royal Life Estates (West) Cyf [illegible] Grŵp Royal Life.
Mae Royal Life yn aelod o LAUTRO
[illegible]





# Wales Art Fair
# Ffair Celf Cymru

An annual exhibition of leading
Welsh contemporary and period art
*Arddangosfa flynyddol o prif*
*arlunwyr cyfoes a chyfnodau Cymreig eraill*

**The Old Library**
**The Hayes, Cardiff**
**Thursday 7 November –**
**Sunday 10 November 1991**

*sponsored by*

South Wales ELECTRICITY Trydan De Cymru

For more information Telephone 0222-227787



## CARPEDI O'R ORIENT
## O GASGLIAD GODIDOCAF CYMRU

Gwisgwch eich cartref â phrydferthwch yr Orient.
Dewiswch o'n detholiad eang o rygiau unigryw,
pob un yn gelfyddyd ynddo'i hun.
Rygiau llwythau o Bersia, Affganistan, Twrci a China
Y cyfan am ganran o brisiau Llundain
*Hefyd yn cadw porslen unigryw o China, a hen greiriau o India*

## A TAPSELL

(Sefydlwyd 1952)

**167 City Road, Caerdydd**
**☎ (0222) 482668**

## Lloffion o'r WASG

Yn ôl pob tebyg mae ymchwilwyr o China wedi darganfod cyfrinach iaith sydd dros fil o flynyddoedd oed, a ddyfeisiwyd ac a ddefnyddiwyd gan ferched yn unig.

Fe ellid galw'r iaith neu'r sgript nushu yn iaith gyntaf rhyddid merched oherwydd iddi gael ei defnyddio'n gyfrinachol gan ferched i feirniadu anghyfartaledd rhywiol yn y China imperialaidd.

Enw iaith arferol China oedd nanshu, sgript y dynion, ac oherwydd mai dynion yn unig oedd yn cael addysg, hwy felly un unig oedd yn defnyddio'r iaith honno.

Am o leiaf fil o flynyddoedd defnyddid nushu gan ferched oedd yn byw yn nhalaith dawd Huan. Dechreuwyd astudiaeth fanwl o'r sgript yn y 50au cynnar, ond yn y 50au a'r 60au cyfeirid at y rhai oedd yn gallu defnyddio'r sgript fel dewinesau.

Rai blynyddoedd yn ôl, dwsin o ferched yn unig oedd yn gallu darllen nushu, a tair yn unig oedd yn gallu ei sgrifennu. Erbyn hyn mae dwy o'r dair wedi marw, a dim ond Yang Huanyi, 83 oed, sydd bellach yn gallu cyfathrebu drwy ddefnyddio'r sgript anhysbus.

*********

Meddai Michael Howard yr Ysgrifennydd Cyflogaeth, am arweinydd y Blaid Lafur, "Neil Kinnock yw Basil Brush gwleidyddiaeth Prydain. Gwên fawr ac ambell jôc – ond rhywun arall sy'n ysgwyd ei gynffon".

*********

Dywedodd Norman Lamont "If you ask the Shadow Cabinet about principles, they think you're talking about a chain of fashion shops".

*********

Yn Rennes cyfaddefodd gŵr 41 oed iddo lofruddio'i fam am ei fod wedi cael digon ar fwyta mlvdls.

*********

Pan ofynnwyd i Syr Bob Reid, cadeirydd y Rheilffyrdd Prydeinig, os oedd am ymddiswyddo, atebodd "O na, er mwyn y nefoedd. Os ydych chi yng nghanol pantomeim, rych chi eisiau aros gydag e".

*********

Dan Quayle, Dirprwy Arlywydd America, pan ar ymweliad ag un o wledydd America Ladin, "Piti na ddysges i Ladin yn yr ysgol".

*********

Yn swydd Gaerloyw, achubodd Dennis Turner fywyd mochyn bach drwy roi cusan bywyd iddo. Meddai wedyn, "Dyma'r tro ola y bydda i'n cusanu mochyn".

*********

Os fuoch chi'n cwyno am iaith lafar cyhoeddwyr radio a theledu Cymru, yn Windhoek yn Namibia dywedodd un cyflwynydd newyddion "Before the Comminwealth meeting in Zimbabwe, the Duck of Edinburgh and Queen Elizabeth the Eleventh of Britain will visit...".

## Colofn Shân



EFALLAI EICH bod chi dros y misoedd dwytha 'ma wedi sylwi mai deuddeg tudalen sydd i'r Dinesydd ar hyn o bryd. Nid prinder deunydd sy'n gytrifol am hyn ond prinder arian i gynnal rhagor o dudalennau.

A sylwoch chi ar glawr y rhifyn dwytha – "65c i ni am ddim i chi". Dyna'r ffeithiau moel, ac heb ragor o arian ni ellir cynyddu tudalennau'r papur. Mae hyn yn ofid i mi gan bod digon o ddeunydd yn dod drwy'r drws acw o fis i fis.

Ymddiheuraf i lawer ohonoch am beidio â chynnwys cyfraniadau a baratowyd gyda gofal gennych ar gyfer y rhifynnau dwytha. Siom i mi yw methu â chynnwys popeth.

Wedi deud hynna, parhewch i anfon ata i yn y gobaith y gallaf gynnwys y mwyafrif o'r erthyglau a'r pytiau. Os daw tro ar fyd ar goffrau'r Dinesydd gobeithio y gallwn gynhyrchu papur a fydd yn wir adlewyrchiad o fywyd Cymraeg Caerdydd.

Sylwch hefyd ar gyfeiriad newydd Surrexit os ydych am gysylltu i osod hysbyseb yn y papur.

Rwy'n sgwennu'r pwt yma ar brynhawn Sul glawog diflas yn y siop yn Sain Ffagan, heb fawr neb i amharu arnai – ambell i ymwelydd tramor, a diolch amdanynt, rhai Cymry Cymraeg y byddaf yn manteisio arnynt i ladd amser yn sgwrsio'n ddifyr.

Caf bleser clywed cynifer o'r ymwelwyr, nid yn unig yn canmol yr Amgueddfa, ond yn rhyfeddu hyd at wirioni ar y lle. Harddwch y lle a rhyfeddod yr hyn a gyflawnwyd wrth ail godi cynifer o adeiladau yma.

Ydach chi wedi bod draw yn ddiweddar? Yr atyniad diweddara yw Siop Gwalia sy'n dwyn llu o atgofion i mi.

Rwyf yn gweithio yno yn fy nhro, a phob tro caf gipolwg yn ôl ar fy mhlentyndod pan awn i siopa am gig, caws a menyn, a'r siopwr yn ei dorri yn y fan a'r lle a'i lapio mewn papur gwyn a'i roi mewn bag papur llwyd. Arogl coffi dros y lle a'r bisgedi yn cael eu pwyso o gypyrddau bach gwydr ar ochr y cownter.

Mae ymweld â Gwalia yn brofiad atgofus pleserus i'r hen a'r canol oed ac yn antur i blant, pobol ifanc ac ymwelwyr o dramor.

Ar hyn o bryd y mae yma arddangosfa hardd o lestri tseina Abertawe sydd yn wledd i'r llygaid ac yn tynnu dŵr o ddannedd unrhyw gasglwr.

Mae'n agosau at bump o'r gloch a dyna pryd y mae'r siop ar ei phrysuraf, pawb yn ei gadael hi'n ben set ac yn galw yma ar eu ffordd allan. Dyna un wers y'i dysgais ers pan yma – peidio byth â mynd i siop pan ar fin cau a'r creaduriaid y tu ôl i'r cownter yn dyheu am gael mynd adra!

## HYBU YMCHWIL ER COF AM BERNARD EVANS

DERBYNIWYD y swm anrhydeddus o £1700 er cof am y diweddar Bernard Evans.

Dymuniad Valmai, Huw a Dylan oedd cyflwyno'r arian a roddwyd er hyrwyddo gwaith ymchwil lewcemia yng Nghymru.

Ar 8 Hydref cyflwynwyd siec am £1700 i Dr Whittaker yn Ysbyty'r Brifysgol – £500 i'w ddefnyddio gan y ward i addasu ystafell arbennig at wasanaeth perthnasau a theuluoedd cleifion, a £1200 at waith trawsblannu mêr.

Derbyniwyd y rhodd gan Ysbyty'r Brifysgol gyda diolch mawr, gan cymaint y dibynnir ar roddion gwirfoddol o'r fath.

y Dinesydd

Golygydd: Shân Emlyn, 5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair, Llandaf, Caerdydd CF5 2EE. 0222 567438
Cynhyrchu: Surexit Cysylltiadau Torfol, 3 Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL. 0222 578772; 0222 598243 (hysbysebu); ffacs 0222 567639. ©Y Dinesydd 1991

**Dyddiad olaf derbyn copi ar gyfer rhifyn Rhagfyr/Ionawr: 22 Tachwedd 1991**

## LLORIO LLANGRANNOG

AM BYTHEFNOS ym mis Hydref aeth holl ddisgyblion blwyddyn gyntaf Ysgol Glantaf yn eu tro ar eu pererindod i Langrannog. Ac ymhlith y swogs roedd Iolo Whelan a Mathew Wason.

Cyrhaeddodd y bws Langrannog, a'n breichiau'n dal i frifo o lwytho'r bagiau cyn gadael Glantaf Isaf.

Rwy'n cofio popeth: yr arogl cinio dydd Sul yn y ffreutur – a'r Domestos – yn cyrraedd fy ffroenau yn syth. Rhwygiadau yn y bwrdd pŵl wedi eu cau â thâp carped, a thomen enfawr o fagiau wedi eu taflu gan y swogs di-ofal yng nghornel y caban bwyta.

Trefn y prynhawn: cinio, bagiau, a cherdded i'r pentref. Does dim byd yn newid.

Bu noson y swogs yn hwyl, gwneud sbort am bennau'r athrawon heb iddyn nhw weiddi arnom ni. Perfformiwyd sgetsus anfarwol Wil Wedi Marw, y Flasher, a llun cartŵn o Mr Williams Daearyddiaeth.

Y bore trannoeth cafodd ein grŵp y fraint o yrru'r beiciau modur. Mi gawson ni hwyl wrth weld y merched a'r plant llai yn hollol anobeithiol werth geisio rheoli'r cwods. Roedd wrth gwrs ddisgwyl i'r swyddogion daflu eu hunain o'r treic mawr NIA er mwyn diddori'r plant.

Mae braint y swyddogion yn enfawr – cael helpu eu hunain i gynnwys y ffreutur tu ôl i'r cownter, ac aros tan oriau mân y bore (neu beidio â mynd i'r gwely o gwbl), mynd i nofio ganol nos, ac yn bennaf gosbi blwyddyn saith a marcio'r cabanau anniben yn galed.

Erbyn hyn cydymdeimlwn yn llwyr â'r swogs oedd wedi ceisio'n disgyblu ni pan oedden ni yn nosbarth un! Roedd trefnu, helpu, dysgu, disgyblu a diddori'r plant yn waith caled iawn.

Ond er hynny, mi gawson ni amser da – a'r plant hefyd – pawb wedi mwynhau wythnos mewn awyrgylch Gymreig.

## CYMORTH I ECSEMA

CYFLWYNWYD £1180 gan ysgol Glantaf i Elusen Cenedlaethol Ecsema. Derbyniodd Muriel Gaunt o'r Elusen y siec gan Rhiannon Buck a Hannah Richards, a dywedodd "Mae'r cyfraniad gwych yma yn gychwyn da i wythnos cenedlaethol ecsema".

Defnyddir yr arian i gefnogi gwaith ymchwil i arbed poen a dolur i bobol sy'n dioddef o'r clefyd.

Hon oedd yr ymgyrch godi arian mwyaf llwyddiannus gan Glantaf ers tro, ac fe'i godwyd drwy noddi gweithgareddau fel coginio, gwneud teganau a threfnu cwisiau.

# BYWYD Y CERDDI MASWEDD YN PLESIO

CYHOEDDWYD *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol* gan Dafydd Johnston ym mis Gorffennaf. Mae digon o sôn wedi bod am y llyfr yn y wasg, ac mae'r llyfr wedi gwerthu bron 1,500 o gopïau yn barod gyda'r ail-argraffiad ar y ffordd. Yma mae'r cyhoeddwr, Siân Johnston o Tafol – gwraig yr awdur – yn sôn am y fenter.

Flwyddyn a hanner yn ôl, yn dilyn trip llwyddiannus i ddarlithio yn California, fe benderfynodd Dafydd gyhoeddi ffrwyth ei ymchwil ar y canu maswedd. Roedd manteision cyhoeddi ein hunain yn amlwg o'r dechrau. Er mai'r bwriad oedd gweithio ar y llyfr un diwrnod yr wythnos yn unig, roeddwn yn ffyddiog y gallwn gael y llyfr allan o fewn blwyddyn – a hynny gan gadw rheolaeth lwyr dros gynnwys ac ansawdd y llyfr. Ac roedd angen rhywbeth i'm cadw'n gall tra fy mod gartref yn magu plant.

Roedd llawer o bethau i'w dysgu – dyma'r tro cyntaf i fi gyhoeddi llyfr ac ar y dechrau roedd yn rhaid darllen llyfrau i ddysgu beth yw cyhoeddi! I gadw costau'n rhesymol o isel byddai'n rhaid i mi ymgymryd â chymaint o'r gwaith ag oedd yn bosib. Penderfynais ofyn i eraill argraffu'r llyfr, a chynllunio'r clawr, a fi fyddai'n gwneud y gweddill – cynllunio a chysodi'r llyfr, dewis y papur, dewis y rhwymiad, penderfynu ar ddyddiad cyhoeddi, sut i lansio, pa gyhoeddusrwydd i'w gael, sut i ddosbarthu, beth fyddai pris y llyfr ac ati.

Yr uchafbwynt cyntaf oedd gweld y dymi – gweld yn union sut byddai'r llyfr yn teimlo – y siâp, y papur ac ansawdd y clawr yn union fel y byddai yn y llyfr terfynol. Yna daeth y bromides – y copi parod-i'r-camera oedd yn cael ei anfon at yr argraffwyr. Roedd rhaid cadw dwylo brwnt y plant oddi ar y rhain ac eto dyma'r cyfle olaf i gael golwg drostynt i wneud yn hollol siwr unwaith eto nad oedd dim gwallau.

Bûm yn edrych ymlaen yn eiddgar at ddal y llyfr ei hun yn fy nwylo, ond erbyn iddo gyrraedd o'r argraffwyr roedd cwestiynau newydd yn llenwi fy meddwl. Sut i lapio'r llyfrau i'w danfon trwy'r post? Sut mae danfon 100 o lyfrau i America? Sut mae gwneud yn siwr na fydd y cyhoeddusrwydd yn dibrisio gwerth academaidd y llyfr wrth wneud stori fawr o'r elfen fasweddus? Yna daeth gwyliau'r haf, a bob bore roedd y plant a finnau yn pacio llyfrau, y plant yn gyfrifol am y tâp selo a'r stampiau, a fi'n cadw golwg ar y gwaith papur a'r arian. Dyna beth yw cyfuno teulu gyda gwaith!

Beth ddysgais i? – fod llawer iawn o benderfyniadau bach i'w gwneud er mwyn creu llyfr. Mae'r gallu i benderfynu yn allweddol i lwyddiant busnes, ond mae'n bwysig fod y penderfyniad wedi ei gefnogi gan ymchwil a pharatoi trylwyr.

Bod hefyd yn rhaid cael amserlen, ond un sydd wedi ei chynllunio'n synhwyrol gyda digon o le ynddi i'r ddau blentyn gael brech yr ieir ar adegau gwahanol.

Er fod fy swyddfa yn fy nhŷ, teimlas fod rhaid cadw'r ddau beth ar wahân – gwisgo'n addas (sgidiau go iawn yn lle sliperi), dweud wrthyf fy hun fy mod yn 'mynd i'r gwaith' fel miloedd o bobl eraill, a pheidio ag eistedd yn gyfforddus ar y sofa wrth siarad ar y ffôn – ond sefyll er mwyn swnio'n effro.

A'r plant? "Hanner awr fach arall ac fe ddarllena i stori i ti" – rhaid cadw addewid neu fyddan nhw ddim yn fy nghredu'r tro nesaf.

A'r gwaith tŷ? Na, dydw i ddim wedi cael hyd i'r ateb hyd yma!

# LLENWA'N HOSAN SIÔN CORN!

LIS ROBERTS yn llenwi ei horiau gweigion yn pori drwy rai o'r llyfrau ddaw Siôn Corn â nhw ymhen cwta saith wythnos.

Mae Gwasg y Dref Wen wedi cyhoeddi llyfrau newydd yn arbennig ar gyfer y Nadolig.

Juli Paschalis sy'n gyfrifol am drosi'r ddwy stori am Ifan Bifan o'r Swedeg, ac unwaith eto, mae ei helyntion yn ddifyr ac yn ddoniol, yn enwedig *Ifan Bifan wrth ei fodd* sydd â neges bwysig i blant anfodlon – pan mae Ifan yn isel ei ysbryd ar ôl i'r Nadolig ddod i ben. "Pe bai popeth yn hwyl drwy'r amser, fyddech chi ddim yn ystyried mai hwyl oedd e" yw geiriau ei famgu!

Yn ogystal â *Penblwydd Hapus Ifan Bifan* – does dim rhaid disgrifio cynnwys hwn! – mae *Tyrd adref, arth bach* yn debygol o apelio at y plant lleiaf, tra bod *Llawlyfr Doctor Sargl ar Deithbethau'r Ddaear* gyda'i hiwmor 'alternative' yn fwy addas ar gyfer plant sydd ychydig yn hyn.

Yna, mae Urien Wiliam wedi llunio cyfrol newydd sy'n dilyn hynt a helynt Mostyn a Mali a'r *Sbienddrych Hud*.

Felly, os oes angen llenwi hosan Nadolig y plant, yna mae llyfrau Gwasg y Dref Wen yn fwy diwylliedig ac yn rhatach(!) na'r Nintendo Gameboy.

**Ifan Bifan wrth ei fodd £3.95. Penblwydd hapus Ifan Bifan £3.95. Tyrd adref, arth bach £5.50. Llawlyfr Doctor Sargl £4.95. Y Sbienddrych Hud £3.25**

# ★CYSTADLEUAETH DOLIG★

Mae'r Dinesydd yn cynnig dau lyfr newydd Ifan Bifan i'r ateb cywir cyntaf o'r het i'r cwestiwn hwn:

***Sawl teitl llyfr Ifan Bifan sy'n cychwyn ag enw Ifan Bifan?***

Anfonwch eich atebion at y Dinesydd, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL erbyn 25 Tachwedd



# BEST SELLER GPC

UN O BROSIECTAU cyhoeddi mwyaf y flwyddyn hon fu *Gwyddoniadur Mawr y Plant* gan Wasg Prifysgol Cymru. Mae'r llyfr yn ensieclopedia i blant 7-11 oed yn bennaf ond mewn gwirionedd llyfr a ddylai fod ar silff unrhyw deulu Cymraeg yng Nghaerdydd.

Mae'r cysylltiad rhwng y gyfrol a Chaerdydd yn un agos. Fe'i chyhoeddwyd gan Wasg y Brifysgol ar y cyd â'r Cyd-Bwyllgor Addysg, ac fe'i golygwyd gan WJ Jones o'r Mynydd Bychan.

Bu nifer o ymgynghorwyr wrthi yn sicrhau safon uchel i'r gyfrol, ac yn eu plith roedd Keith Jones o'r BBC yn Llandaf a Stephen J Morgan o'r Eglwys Newydd.

Cyhoeddwyd y teitl yn wreiddiol yn Saesneg, ond nid cyfieithad syml a geir yma ond addasiad Cymreig. Ymhlith y tîm o addaswyr roedd Cynthia Saunders Davies o'r Mynydd Bychan ac Islwyn Griffiths o Riwbeina.

"Rydym wrth ein bodd gyda'r ymateb" meddai Richard Houdmont, Rheolwr Masnach y Wasg. "Argraffwyd 6000 o gopïau – yn fuddsoddiad o fwy na £60,000 – ac eisoes mae llai na 1160 o gopïau ar ôl yn ein stordy". Dywedodd hefyd "a dweud y gwir rwy'n dechrau poeni ein bod yn mynd i'w gwerthu'n rhy gyflym. Fedrwn ni ddim fforddio adargraffiad yn rhy fuan gan fod y pris gwerthu mor isel o'i gymharu â'r pris cynhyrchu!".

Mae'r gyfrol ar werth mewn siopau lleol fel Oriel a Lears, a £19.95 yw'r pris ar y clawr.


**PRENTIS** Y CYLCHGRAWN CENEDLAETHOL I DDYSGWYR
DECHREUWYR A PHROFIADOL

THE NATIONAL MAGAZINE FOR WELSH LEARNERS
BEGINNERS AND ADVANCED

Ar gael mewn siopau llyfrau Cymraeg neu drwy'r post. Danfoner £5 ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad:
Available in Welsh bookshops or by post. Send £5 together with your name and address to:

Gwasg Taf
GWASG TAF
99 HEOL WOODVILLE, CAERDYDD. CF2 4DY
✆ (0222) 221778

# CASA TE GALÉS

## Gwilym Roberts ar lan afon Camwy yn mwynhau paned a theisen dorth, tra'n cofio Rhiwbeina – a'r glaw



*"...ac fe fydd y cymylau duon yn dod â'r glaw i'r Wladfa amser te Cymreig tua deg i dri..."*

CREDWCH CHI neu beidio, ond dwy wedi gweld glaw tua saith gwaith ers i mi gyrraedd! Ond mae'r trigolion yn fy sicrhau ei fod yn anarferol iawn i weld cymaint! Ta waeth, mae hi'n wanwyn yma bellach ac mae'r haul yn tywynu'n braf, ond dydy hi ddim yn rhy boeth – eto!

Y tro diwetha sgrifennais i roeddwn newydd gyrraedd y Gaiman, a hynny ar ddydd Mawrth. Erbyn nos Fawrth roeddwn i wedi cael gwahoddiad am bryd o fwyd canol dydd y diwrnod canlynol yn nhŷ Eluned Gonzalez a'i theulu. Hi ydy prifathrawes Coleg Camwy sy ar ben stryd Michael D Jones lle dwy'n byw.

Yn eistedd o amgylch y bwrdd yn ystod y pryd roedd gŵr Eluned ac un o'i meibion, Tegai Roberts (chwaer Eluned), Laura Henri (merch Irma Hughes de Jones, golygydd y Drafod, papur Cymraeg y Wladfa), a Delyth McDonald (gwraig Elvi McDonald, Trefnydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd).

Roedd Delyth ar ei hymweliad cyntaf â'r Dyffryn ac yn aros hefo teulu'r McDonalds yn stryd Michael D Jones! Ble arall?! Mae llond gwlad o Gymry yn byw yn y stryd hon, ac mae'n fy atgoffa i o Riwbeina yn aml!

Ond cyn mynd am y pryd ar fore dydd Mercher. Cês wahoddiad i ymweld â'r Coleg i wrando ar wers gerddoriaeth dan arweiniad Edith McDonald, sef chwaer Elvi.

Yn ystod y wers canodd y plant *Lawr ar lan y môr* gydag afiaith. Roedd tua chwarter y dosbarth o dras Cymreig, gydag enwau fel Fernando Jones ac Orlando Evans, ond mae'n drist nad oedd yr un yn medru Cymraeg.

Ar ôl dychwelyd o'r pryd bwys, cês gyfle i fynd am dro i ben y lomas, sef bryniau isel ar ddiwedd fy stryd. I ffwrdd â fi nes cyrraedd y brig.

Roedd Manhijias bach gwyllt a phigog yn tyfu ym mhobman ymhlith y graean a'r tywod a'r cerrig mân, a chês olygfa braf o'r Gaiman a rhan o'r Dyffryn. Sylwais ar gytiau'r tlodion ar ochr y bryniau wedi eu hadeiladu o frisblocs, gyda thoeon sinc a heb ffenest yn aml. Roedd cytiau tebyg i'w gweld ar gyrion Trelew a Dolafon hefyd, a theimlir tristwch mawr wrth feddwl amdanyn nhw'n byw dan y fath amgylchiadau.

Roedd cyngerdd gyda'r nos ac wrth gwrs cês wahoddiad i fod yn bresennol. Galwodd Laura Henri amdanaf yn ei char ac aethom drwy'r pentre a thros bont yr afon Camwy (Chubut) gan basio arwydd yn cyhoeddi Casa Te Galés, sef ty bwyta sy'n gwneud te Cymreig! Enw'r ty hwn oedd Tŷ Draw i'r Afon, ond tybed a ddylai ddarllen Tu Draw i'r Afon? Nis gwn.

Cynhaliwyd y cyngerdd yn hen gapel Bethel. Mae capel newydd wedi ei godi nepell o'r fan. Roedd prysurdeb mawr y tu allan a thu mewn i'r lle, a'r festri dan ei sang hefo plant a phobol.

Wrth weld y festri cês fy atgoffa o festrïoedd capeli yng Nghymru, ac roedd lluniau rhai o arloeswyr y Wladfa ar y waliau.

Cafwyd datganiadau gan gorau'r pentre, sef Côr yr Ariannin a ganodd ac enillodd yn Eisteddfod yr Urdd yn Nhaf Elai, a chanon nhw *Dacw Nghariad* a *Ble'r Ei Di*.

Canodd y pari dynion *Ble Cest ti'r Ddawn* gan Ryan Davies, a'r côr cymysg yn canu *Bendigedig Fyddo'r Iesu*. Fe ganodd y corau yn Sbaeneg hefyd.

Rhoddwyd croeso swyddogol i mi i'r ardal a gofynnwyd i mi ddweud gair. Roedd y gynulleidfa'n gwrando'n astud ar bopeth yn y cyngerdd ac yn cymeradwyo'n frwd. Cês gyfle i gyfarfod â nifer o Gymry a rhyfeddu at lithrigrwydd eu Cymraeg, er bod y rhan fwyaf erioed wedi bod yng Nghymru. Roedd safon y cyngerdd yn uchel, a mwynheais bob munud ohono.

Am weddill yr wythnos gyntaf cês amser i ymgyfarwyddo â'm amgylchiadau newydd, ac i baratoi at gynnal dosbarthiadau Cymraeg led led Dyffryn Camwy.

Fel rhan o'r ymgyrch gyhoeddusrwydd, cês gyfweliad gan ddau bapur newydd lleol, a gwelwyd penawdau bras fel *Dictorán clases de galés en la zona* (hybu dosbarthiadau Cymraeg yn yr ardal) yn y papurau hynny.

Hefyd cês gyfweliad ar dâp gan Tegai Roberts, chwaer Eluned Gonzalez, sy'n gyfrifol am yr unig raglen radio Gymraeg sy'n para chwarter awr, ac a ddarlledir unwaith yr wythnos am chwech bob nos Sadwrn.

Tegai hefyd sy'n gyfrifol am y Museo Galés (Amgueddfa Gymreig) yn y Gaiman, sydd wedi ei lleoli yn yr hen orsaf rheilffordd. Mae hon yn amgueddfa hynod o ddiddorol, ac mae'r llyfr ymwelwyr yn darllen fel cyfeiriadur y byd!

## Menna'n Manylu

RÔN I yn yr awyr ac yn teimlo ar 'clowd nain' – er na fydde run o'r ddwy yn meddwl am hedfan tase nhw'n fyw heddiw. Mae gennai phobia ofnadwy am hedfan fel arfer, ond y tro yma rôn i'n well beth – pam, dwi'm yn gwbod.

Hwyrach mod i mor flinedig fydde dim bwys gennai petawn yn glanio ar fy mhen yn yr Atlantig! Ond glanio ar darmac go anwastad wnaethon ni yn Corfu, a hynny ar ôl awr o dyrbiwlans dros yr Alpau. Fe 'wnath' Ceri, Hazel a finne ddigon o frics i ail-adeiladu wal Berlin.

Roedden ni fel petaem wedi glanio wrth ochor y wal honno gan fod llawer o Almaenwyr yn y gyrchfan lle arhosem ym Messonghi.

Roedd 'na Saeson yno hefyd wrth gwrs, a does yr un sgwrs rhwng Sais a Menna Medi'n pasio heb ryw fath o 'drafodaeth'.

Wel, cega efo'r Groegwyr oedden ni a deud y gwir mewn ffordd digon cyfeillgar, am yr holl recordiau a dylanwadau Seisnig oedd yn y tavernas, a ninne wedi dianc o'u sŵn nhw i flasu naws arbennig cerddoriaeth y wlad.

Lai na deng mlynedd yn ôl byddai canu Groegaidd traddodiadol i'w glywed ym mhobman, a phawb yn cyd-ddawnsio i fiwsig y Zorba a'i debyg. Ond ysywaeth, daeth tro ar fyd cyntefig yr hen Roegwyr hyd yn oed, er fod 'na ddigon o bobl yn byw mewn cytiau pren â thoeon sinc o hyd.

Welodd Hazel mo'r diwrnod cynta – roedd y gwin a'r Ouzo a'r Amstel yn ail-ddangos trwy'r dydd, ond trafferth y efo'r mosgitos oedd Ceri a fi'n ei gael (yr unig bethau oedd yn heidio amdano i gyda llaw).

Roedd gan Thomson arlwy eitha da ar gyfer eu "gwylwyr" (term newydd am bobl ar eu gwylie). Ond roedd y cyfan yn rhy fasnachol i ni – caem ddigon o kareoke a bingo a disgos adre petaem eu heisio – ac roedd yn rhatach talu £1 i fynd ar fws lleol na chymryd excursion am £10 efo Saeson ymffrostgar a diflas.

Roedd pobl yn yr ardal hon yn ymwybodol iawn o Gymru – onid oeddem newydd golli'r rygbi a'r pêl-droed?! Ond gofynnwyd i mi gan un sut oedd y tywydd yn England, a finne'n ateb na chês y pleser o ymweld â'r wlad honno ers tua deg mis, ond ei bod yn eira ar droed yr Aran yng Nghymru.

Fe ddysges rywbeth yng Nghorfu hefyd, sef bod gwragedd gweddwon yn gorfod gwisgo du am weddill eu hoes, ond dim ond tri mis i ddynion gweddwon! Efo ffasiwn y sgertie a'r sane duon yn y wlad yma mi fydde'r Groegwr randi'n meddwl fod y merched ifanc i gyd heb ddynion – meddyliwch y am lle fydde yma wedyn! Yassas.

# FFISIG A PHROFIAD OES

### NIA HALL WILLIAMS YN SGWRSIO Â DR ROSENTYL GRIFFITHS A'I CHWAER DR BRYNEILEN



◆ Y Dr Bryneilen (chwith) a'r Dr Rosentyl Griffiths yng Ngarddwest y Frenhines, Palas Buckingham, Mehefin 1985

Ar y pedwerdydd-ar-ddeg o fis Medi eleni, dathlodd Dr Rosentyl Griffiths ei jiwbili deiamwnt fel meddyg teulu yng Nghaerdydd. Gosodwyd ei phlac efydd (gloyw, gloyw) ar wal ei chartref yn Shirley Road, Parc y Rhâth (lle mae'n byw o hyd) ym 1931, ac yn ddiweddarach ychwanegwyd ato enw ei chwaer Bryneilen.

Ers hynny mae'r ddwy wedi gweithio fel partneriaid, ac er eu bod ymhell o fod yn Young Doctors (ganed Rosentyl ym 1903), maen nhw'n parhau i drin eu cleifion ac i baratoi moddion yn eu fferyllfa eu hunain.

Private patients sy ganddyn nhw; penderfynodd y ddwy beidio ag ymuno â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ym 1948. "Dim byd yn erbyn y gwasanaeth cofiwch" meddai Rosentyl, "ond ofni roeddwn i na fase ni ddim yn cael digon o amser i drin y patients yn iawn dan y drefn newydd. Ac amser sy'n bwysig, chi'n gweld – amser i siarad, amser i ddod i nabod y claf a'i deulu cyn gwneud diagnosis. Mae'n rhaid trin y dyn cyfan."

Fel Dr Rose a Dr Bryn y bydd pawb yn eu nabod nhw; bathwyd eu henwau bedydd gan eu tad Tom Griffiths, dyn diwylliedig, hunan-ddysgiedig, oedd yn ymhel â'r 'pethe'.

Ym 1983, er mwyn coffáu ei enw barddol, ychwanegodd ei ferch hynaf Rosentyl 'ach Brychan' at ei henw wrth ymuno â'r Orsedd. Mae ei pharch at ei thad yn amlwg, a'i llygaid bywiog yn disgleirio wrth iddi sôn amdano. "Gallwch ddeud ei fod yn ddyn oedd yn caru plant, ei grefydd, ei wlad a'i iaith".

Gellid, mae'n siwr, ddefnyddio'r un geiriau i ddisgrifio'r ddwy chwaer, ond byddai'n rhaid ychwanegu meddygaeth at y rhestr – a'i osod ar y brig.

Ond sut tybed y bu i ddwy ferch ifanc o Ferthyr – fe'u magwyd a'u haddysgwyd yno – benderfynu yn ystod ugeiniau cynnar y ganrif hon rou ei bryd ar fod yn feddygon? "Well, you see, our mother was medically inclined".

Ar ôl holi am yr inclination hwnnw, roedd yn amlwg bod Martha Griffiths nid yn unig yn ymddiddori mewn meddygaeth, ond yn meddu'r gallu i drin meddyginiaethau'n llwyddiannus, dawn a etifeddodd gan ei thad John Howells, Dyn y Gwter Fawr – yntau'n enwog am ei ddulliau o drafod canser y croen.

Llwyddodd Mrs Griffiths i wella dwsinau o gleifion yn ei hamser, gan gynnwys Gwyrosydd, awdur Calon Lân – iachad a barodd iddo ganu cân o foliant iddi.

Prin bod angen chwilio ymhellach am wraidd penderfyniad Rosentyl i gynnig am le yng Ngholeg Meddygol Caerdydd – y gyntaf o Ysgol y Merched, Cyfarthfa, i wneud hynny.

Ond cyn cael ei derbyn bu'n rhaid iddi gael caniatâd arbennig i fynychu ysgol y bechgyn i astudio'r gwyddorau. "Cyn hynny, cofiwch, doeddwn i ddim i fod i siarad â'r bechgyn!"

Yno bu'n dilyn Cemeg, Ffiseg a Bioleg o'r dosbarth cyntaf ymlaen, ac yno hefyd bu'n arbrofi â chemegau mewn stafell fechan ar ei phen ei hun, gan greu "a little incendiary bomb, really" nes peri i'w hathro cemeg, Sarnicol, ofni y byddai'n rhaid iddo, ryw ddydd, ei chrafu oddi ar y to!



Yn y Coleg, er ei bod hi – a'i chwaer yn ddiweddarach – yn un o bedair merch mewn dosbarth o ddeugain, dywed Dr Rose na chafodd hi ragfarn yn ei herbyn, fwy nag y cafodd yn ei gwaith. Yn sicr does dim prinder dynion ymhlith cleifion y practis, a'r rheiny'n croesawu gofal merch.

**Amser sy'n bwysig – amser i ddod i nabod y claf cyn gwneud diagnosis. Mae'n rhaid trin y dyn cyfan.**

# DR ROSE A DR BRYN

**Yn y 30au, TB, diptheria a newmonia oedd y gelynion mawr. A newmonia'n arbennig. Allen ni wneud dim byd ond aros am y crisis ar yr wythfed dydd – ar ôl hynny roedd y patient naill ai'n farw neu'n darllen papur newydd."**

"Dim ond un dyn bach swil weles i rioed – doedd o ddim am ddangos ei benelin i mi!". Yn ôl ei feddyg, ni fu'n hir yn bwrw'i swildod.

Dros gyfnod o drigain mlynedd mae'r ddwy wedi gweld newid mawr ym myd meddygaeth. "Yn y 30au, TB, diptheria a newmonia oedd y gelynion mawr. A newmonia'n arbennig. The Captain of the Men of Death we used to call it. Allen ni wneud dim byd ond aros am y crisis ar yr wythfed dydd – ar ôl hynny roedd y patient naill ai'n farw neu'n darllen papur newydd."

Cipolwg ar oes ddieithr. Nid bod Dr Rose a Dr Bryn yn byw yn yr oes o'r blaen; mae'r sypiau o gylchgronau fel y BMA Journal ar fwrdd a chadair yn tystio i'w hawydd i ddilyn datblygiadau newydd. Ac yn dyst hefyd i'w diddordeb mewn 'Medical Politics' y byd meddygol sy'n bodoli y tu hwnt i ffiniau'r syrjeri yn Shirley Road.

Mae Dr Rose yn Gymrodor o'r BMA ac o Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu. Yn sgil hynny cafodd gyfle i weld rhyfeddodau'r byd – gallai sgrifennu cyfrolau am ei theithiau i gyfarfodydd gwyddonol, a byddai'n rhaid wrth enseiclopedia i restru'r holl swyddi sydd wedi dod i ran y ddwy ym myd meddygaeth cyhoeddus.



Ond yn anad dim meddygon teulu ydyn nhw. Dwy sy wedi ymroi i'w gwaith ac wedi mwynhau pob munud ohono. Er hynny fe hoffai Rosentyl "gael mwy o amser i ganu'r piano neu i fynd i ymweld â charchardai – mae angen pobol i siarad â charcharorion cyn iddyn nhw fynd allan i'r byd eto."

Does dim awgrym o dristwch yn ei geiriau, dim ond dyhead plwmp-a-phlaen am fwy o amser i gyflawni popeth.

"Fase'n braf cael byw i fod yn 200 oed". Pe bai'n cael y dymuniad hwnnw, mae'n siwr y byddai'n hapus fel y bu ar hyd ei hoes hir. "If I ever get to heaven" meddai "it won't be a change".

# DEUD FY NEUD

## Cadi Llwyd

DO FE DDAETH cynadleddau blynyddol y pleidiau gwleidyddol i ben dros y Sul gyda chynhadledd Plaid Cymru ym Mhorthmadog.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf yma mae pob un o'r pleidiau wedi addo môr a mynydd i ni'r pleidleiswyr – addewidion rif y gwlith a'r rhai olaf cyn yr etholiad cyffredinol nesaf, wrth gwrs. Gobeithio nad addewidion rhyfygus, nad oes rhin na sylwedd iddynt ydyn nhw!

Addawodd y dyn neis, llwydaidd, John Major, na fyddai'r gwasanaeth iechyd yn cael ei breifateiddio tra bydd e'n denant yn Rhif 10. A beth oedd addewidion y cochyn moel o etholaeth Islwyn tybed? Dwi ddim yn siwr iawn, a deud y gwir. Llifeiriodd y geiriau'n ribidires o'i enau yn ôl ei arfer, ond dwn i ddim yn iawn be oedd ei addewidion chwaith. A bod yn hollol onest, mae brwddegau Neil druan mor hirwyntog fel mod i'n anghofio'u dechrau cyn iddo'u gorffen.

Ac yng nghanol tlodi ariannol ei blaid addawodd Dafydd Wigley, llywydd newydd Plaid Cymru, lansio crwsâd pwysig i geisio ennill senedd i Gymru o fewn y pum mlynedd nesa 'ma. Os bydd Llafur yn ennill yr etholiad cyffredinol ac yn rhoi senedd i'r Alban a dim i Gymru, mae Plaid Cymru yn bygwth mynd â Neil a'i gang i'r 'cleaners', chwedl Wigley.

Bu'r Ddeddf Iaith, neu ddiffyg Deddf Iaith â bod yn fanwl gywir, yn bwnc llosg hefyd ar hyd a lled Cymru. Dwy o ddarllenwyr y Dinesydd yn cael eu collfarnu am siarad Cymraeg yn y gwaith, a rhai eraill yng Ngwynedd yn cael yr un driniaeth. Be sy'n bod ar y di-Gymraeg dwedwch chi? Pam eu bod nhw fyth a hefyd yn dychmygu bod pawb sy'n siarad Cymraeg yn eu gŵydd yn dweud pethau cas amdanyn nhw? Ydyn nhw'n teimlo'r un peth pan fyddan nhw ar eu gwyliau yn Ffrainc, Sbaen neu'r Eidal? Nefar in Ewrop, ddwedwn i!

Mae'n hen bryd i Fwrdd yr Iaith dynnu ei fys allan hefyd. Mae 'na ormod o hen lusgo traed wedi bod yn barod. Efallai y dylai'r cadeirydd, sy'n gadeirydd ar bob dim bron o'r bwrdd dŵr i lawr (gan gynnwys HTV Cymru cyn bo hir yn ôl y sôn) benderfynu ar un gadeiryddiaeth a gwneud un swydd yn iawn. Ond yn ôl rhai, os ydych chi am job i gael ei gwneud, gofynnwch i rywun prysur.

Druan o Gymdeithas yr Iaitrh. Mi gymrodd gam gwag go fawr yn ddiweddar pan baentiwyd sloganau gan rai o'r aelodau ar wal mynwent yn Arfon rai wythnosau nôl. Rydw i'n cytuno â'r Gymdeithas gant y cant ar gwestiwn cael hawliau teg a chyfartal i'r Gymraeg ar bob achlysur ond dydw i ddim yn credu mewn trais yn erbyn person nac eiddo. Pam nad yw pobol beniog, call yn gallu ymresymu, trin a thrafod yn bwyllog er mwyn cael y maen i'r wal (yn hytrach na'r brwsh paent)?

**Dewch yn Gadi-Ffan, a lleisio'ch barn. Sgwennwch ati dan ofal y Dinesydd, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL**

# O DAFARN Y SILI I FIENNA A NÔL

## RHODRI JONES

NOS SADWRN, 12 Hydref, bûm yn dathlu parti penblwydd Dawnswyr Pen y Fai yn ugain mlwydd oed. Sbleddach bwyd, yr Hennessys ac ambell i ddawns dwmpath. Noson llawn hwyl a chrac (y math Gwyddelig).

Wedi dod sha thre eisteddais am gyfnod uwchben y fodca o'r Wcrain yn syllu'n ddiarwybod ar darian heddwch o Galveston. Ac o gofio'r teithiau tramor, cofiais ein bod ni yng nghwmni Dawns Caerdydd wedi hen ymadael â'n penblwydd yn un-ar-hugain.

Ar ôl siarad ag ambell i aelod mwy penchwiban na'r lleill, penderfynwyd dathlu trydedd-mlynedd-ar-hugain-a-hanner y cwmni. Wel, mi fyddai'n ddathliad gwahanol beth bynnag.

Yn achlysurol mae Cwmni Dawns Caerdydd yn ceisio newid rhywfaint ar ei weithgareddau. Weithiau fel ymateb i geisiadau o'r tu allan, neu er mwyn ychwanegu at hwyl y criw.

Ar adegau cawn gais i droi ein nosweithiau dawns yn debycach i nosweithiau llawen, felly penderfynwyd astudio'r posibiliadau o gynnal nosweithiau o'r fath.

Dechreuwyd ar y fenter er mwyn codi arian ar gyfer ein taith i America, a chymaint oedd ein mwynhad yn Nhafarn y Sili fel yr atgyfodwyd y syniad.

Gan fod y nosweithiau'n adlewyrchu hiwmor y Cwmni, maent wedi rhoi gryn dipyn o hwyl i ni ac ambell i noson dda i'r sawl a'u mynychodd.

Mae lleisiau'r Cwmni hefyd wedi eu clywed yn achlysurol yn canu yn y Blas ar Gymru. Yn wir, cymaint yw'r bri sydd ar ein canu fel i ni dderbyn gwahoddiad i ganu yn Fienna y penwythnos cyn y Nadolig yng ngŵyl dathlu daucanmlwyddiant Mozart.

Yn anffodus rhaid oedd gwrthod Fienna gan fod y Fari Lwyd yn dechrau ar ei thramp yr un penwythnos eleni. Os oes rhywun am iddi ddod â'i hwyl a'i lwc dda at y cartre, rhowch wybod i un o aelodau'r Cwmni. Mae'r her i feirdd talcen slip Caerdydd a'r cyffuniau unwaith eto yn dod o enau'r cel.

# Y DINESYDD CYSON

## y Sêr

## EIRY PALFREY YN SYLLU I'R DYFODOL



### ARIES

Does dim os na fydd rhywun, neu rywrai yn rhoi swm o arian sylweddol i chi'r mis hwn, fe allai fod yn etifeddiaeth, neu'n godiad cyflog, ond fe ddaw heb unrhyw ymdrech ar eich rhan chi. Gwnewch yn fawr ohono, chewch chi ddim cyfle fel hyn am sbel eto!

### TAURUS

Rwy'n ofni ei bod hi'n mynd i fod yn Dachwedd stormus yn eich tŷ chi eleni, yn enwedig os ydych chi'n briod, bydd hen glwyfau'n cael eu hagor eto, a bydd rhaid i chi ddelio gyda'r broblem. Os nad ydych chi'n briod efallai y byddwch chi'n cyfarfod â rhywun deinamig iawn. Cymrwch ofal!

### GEMINI

Fe ddaw rhywbeth i'r wyneb ynglŷn â'ch iechyd y mis hwn, peidiwch ag osgoi'r broblem rhag i bethau fynd yn waeth. Mae llawer o gyfrifoldebau o'ch blaen yn y gwaith hefyd, a mae'n bosib y bydd rhywun yno yn rhoi tipyn o sioc i chi, fydd yn gwneud bywyd yn haws o hynny ymlaen.

### CANSER

Mae'n eitha posib y clywch chi newyddion am enedigaeth y mis hwn, yn sicr mi fydd plant yn chwarae rhyw ran bwysig yn eich bywyd – digon pwysig i newid cwrs eich bywyd mewn rhyw ffordd. Mae hwn yn fis creadigol iawn hefyd, cymrwch fantais ohono i hybu'ch gyrfa.

### LEO

Fe ellwch ddisgwyl newidiadau mawr yn eich cartref yn ystod yr wythnosau nesa 'ma – efallai y byddwch chi'n symud i gartref newydd, neu'n gweddnewid eich cartref presennol fel ei fod yn ymddangos fel tŷ newydd i chi. Fe ddylai'r newidiadau fod wrth eich bodd.

### VIRGO

Os oes gennych frawd neu chwaer fe allech glywed newyddion syfrdanol amdanynt cyn bo hir (neu am eich cymdogion efallai). Cofiwch fod yn barod i fod yn gefn iddynt os aiff eu bywyd o chwith. Daw llythyr neu alwad ffôn â newyddion cyffrous i chi.

### LIBRA

Yng nghegysach mae cynilo, gwnewch hynny'r mis hwn, ond fe ddylai digon o arian fod yn weddill i chi gael cyfle i sbwylio'ch hun mewn rhyw ffordd. Gwariwch yn ddoeth a fe ddylech gael llawer o bleser allan o gelficyn neu ddilledyn newydd.

### SCORPIO

Os yw'ch penblwydd yn disgyn yng nghanol y mis fe ddylai hwn fod yn benblwydd arbennig iawn, ac un y byddwch yn ei gofio am flynyddoedd lawer i ddod. Peidiwch ag wylo dros unrhyw golledion a ddaw nawr, roedden nhw i fod i ddigwydd, dyna'r drefn astrolegol a fedrwch chi mo'i newid e.

### SAGGITTARIUS

Anaml y byddwch chi'n dioddef o iselder, ond y mis hwn mae'n bosib y bydd y felan yn eich taro i raddau. Ceisiwch feddwl yn bositif a chadw'ch hunan yn brysur, ac erbyn diwedd y mis pan fydd yr haul yn symud i'ch arwydd daw haul ar fryn unwaith eto.

### CAPRICORN

Peidiwch â chael eich siomi os na chaiff eich gobeithion a'ch dyheuadau eu gwireddu yn yr union ffordd yr oeddech yn ddisgwyl. Byddwch yn barod i newid eich agwedd ac fe ddaw eich dymuniad yn wir, ond mewn ffordd wahanol ac anghonfensiynol efallai.

### AQUARIUS

O'r-diwedd dyma chi'n dechrau meddwl yn fwy positif am eich bywyd, fe fydd pethau'n dal yn anodd, ond mae'r gwaethaf drosodd ac mi fydd y darnau'n dechrau disgyn i'w lle o hyn ymlaen. Fe gewch chithau ddiddordeb neu waith newydd fydd yn mynd â llawer o'ch amser.

### PISCES

Tua chanol mis Tachwedd fe ddylech naill ai deithio i wledydd pell egsotig neu fe ddaw rhyw estron diddorol i'ch bywyd. Rydych chi'n awyddus iawn i ehangu'ch gorwelion ar hyn o bryd i ddysgu gwyddorau a sgiliau newydd. Peidiwch â cholli'ch pen dyna i gyd! Yn ara deg mae ennill tir.

## Hel Meddyliau

## HUW ETHALL

**Hydref 7**

Gwrando ar yr Athro Hywel Teifi Edwards yn traddodi Darlith Flynyddol Gymraeg Gŵyl Lenyddiaeth Caerdydd yn y Brifysgol. HM Stanley a'r Beirdd oedd y testun. Buasai HMS yn troi yn ei fedd wrth glywed HTE yn dadlennu ffug- a gwrth-Gymreictod yr arwr mawr Prydeinig ac Americanaidd, a datguddio bod llawer iawn o hunangofiant y gŵr o Lanelwy yn gelwydd noeth. Ac eto, beirdd fel Eifion Wyn a Iolo Caernarfon yn ei foli i'r cymylau.

Gwnaeth Stanley ryfedd-odau yn Affrica wrth gwrs, ar wahân i ddarganfod Livingstone ("os oedd eisiau ei ddarganfod" meddai'r darlithydd!), ond ni chyflawnwyd ei ddymuniad o gael ei gladdu yn yml Livingstone, ar ôl ei farw, yn Abaty Westminster.

Mae ysbyty Llanelwy, fel y gŵyr y cyfarwydd, yn ymestyn y cof amdano gan mai Ysbyty HM Stanley yw ei henw. Tybed a ŵyr pobl dda Llanelwy holl stori'r gŵr rhyfedd hwn?

'Gwneud hanes' yw'r peth pwysig ym mhob oes, a gwnaeth HMS hanes. Ond onid yw 'dad-wneud' hanes lawn mor bwysig? Gwelir hynny yn Rwsia a dwyrain Ewrop y dyddiau hyn. Dymchwelir pob colgolofn o Lenin yn y wlad fawr, ac aeth Leningrad fel y gwyddom yn St Peterbwrg.

Dywed cofiant gorchestol Peter the Great gan Robert K Massie nad anghofiodd trwch poblogaeth y ddinas hardd honno yr hen enw, ac iddynt hwy Pedr oedd ei gwir enw. Dewisodd y Tsar yr enw Pedr, ei nawddsant, i'w roi ar y ddinas. Buasai brawd Andreas yntau'n troi yn ei fedd pe gwyddai hynny.

Oni ddaeth yn hen bryd i ddad-Lenineiddio rhai o'r enwau yng Nghymru? Beth am ddechrau gydag ysbyty Llanelwy, a newid y Royals yn Llanelli, Penybont a Merthyr? Aeth rhai o'r Cymry yno'n fwy Seisnig na'r Saeson eu hunain. Er wedi marw, mae'n amlwg fod ysbryd HM Stanley yn fyw yng Nghymru o hyd, ac nid yw Cymru fach yn ddigon mawr i ambell un.

**Hydref 8**

Gwrando ar ddarlith yr Athro Dai Smith yn yr un ŵyl, yn darlithio ar *Speaking the word: the tongue of South Wales*, y ddarlith Gwyn Jones Flynyddol.

Rhyfeddu at allu geiriol (Saesneg wrth gwrs) y darlithydd, nes ymgolli mwy yn y traddodi weithiau nag yn y cynnwys. Clywed am allu areithio dewinol rhai o arweinwyr y glowyr, rhai amlwg a rhai anamlwg, a'r darlun o 'siarad y gair' yn argyhoeddi.

Arwr y darlithydd oedd Aneurin Bevan, a phwy a wâd athrylith areithiol y dewin geiriau o Lyn Ebwy? Buasai cael mwy o enghreifftiau o'i areithiau wedi bod yn gymwynas.

Beth ddywedai Bevan am y Gwasanaeth Iechyd y bu'n gyfrifol am ei sefydlu a'i gyflwr heddiw? Os galwodd Bevan y Toriaid yn vermin yn ei ddydd, pa enw tybed a roddai arnynt heddiw?

Ar ddiwedd y ddarlith tybiais, fel Gogleddwr, fod Lloyd George yn ysu am ddod i mewn i'r drafodaeth. Ond nid un o'r De oedd LlG. Yn wahanol i Nye fodd bynnag, roedd ef yn ddewin geiriau yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Pa un felly oedd yr areithydd mwyaf. Mae Glyn Jones yn eitha iawn – The Dragon Has Two Tongues.


CWMNI CYTGORD CYF
(0248) 600578

Sothach!

YN CYNNWYS Y CATALOG ROC
BETH AM DANYSGRIFIO? DIM OND £10 Y FLWYDDYN

LYNN JONES

Aelod o FIMBRA

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

30 Highfields, Llandâf,
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816

**Offeren**
**yn y Gymraeg yn Eglwys Penybont ar Ogwr bob prynhawn Sul am 4.45pm. Ysgol Sul am 4.15pm**

**Malynion pellach**
**0222 553550 neu 0222 611170**

# Byd y Bol

## DAFYDD SAER A'I BEN YN Y FFWRN

Yr wyf o bryd i'w gilydd yn trafod amheuthuneddau sawrus â chyd-wrmeiod pan gyfyd cyfle, a thwy lwc daeth rysáit dymhorol i lanw bwlch y mis hwn gan Daniel a Lucy Kilbride, dau gyfaill sy'n ymhyfrydu mewn pob math o flasau cyffrous.

Mae hen hanes yn perthyn i'r prydyn hwn, a theimlaf y bydd ei apêl eangfrydig yn sicr o ddal dychymyg llawr o Gymry ar yr adeg hon o'r flwyddyn, pan nad oes dim yn well na phlataid o ymborth cynnes i ddod â gwrid iachus i'r gruddiau.

Yn ôl yr hanes yr oedd Guto Ffowc a'i deulu yn dod i Benclawdd am wyliau bob haf, ac ar lafar gwlad erys cof iddo arfer derbyn rhoddion o gocos a bara lawr wrth y bobl leol.

I fynegi ei werthfawrogiad, cynhaliai Guto arddangosfeydd tân gwyllt fin nos i ddiddanu'r trigolion tlodion. Arferasai ddarparu gwledd, gyda bwydlen arbennig wedi ei chynllunio ganddo ef a chogydd lleol o'r enw Elwd Sgathrlaw.

Yn anffodus difrodwyd y memrynau oedd yn cofnodi'r fwydlen mewn tân, oddieithr un rysáit unigryw sydd wedi goroesi ar ein cyfer ni heddiw.

Pleser ydyw i mi gael ei thraddodi i chi yn y Dinesydd.

### Sglodion Guto Ffowc

Yn unol â natur hanesyddol y pryd, peidiwch â'i goginio yn eich cartref eich hun*, ond ar aelwyd cymydog sy'n digwydd bod allan, efallai'n gwylio sioe dân gwyllt. A chofiwch gadw plant ac anifeiliaid anwes yn ddiogel tan glo tra fo'r bwyd yn y ffwrn.

**4 pwys o sglodion tatws**
**1 wynwnsyn**
**1 pwys o gocos**
**2 bwys o fara lawr**
**25ml o Galvados**
**Hapen a phupur**
**Bocs mawr o dân gwyllt**

Os mai tatws organig fel a ddefnyddiwyd gan Guto sydd gennych, berwch hwynt mewn dŵr hallt am tua ¼ awr, cyn eu ffrio nes eu bod yn frown (fel arall fe wna McCain's Oven Chips y tro'n iawn).

Gwnewch saws o'r cynhwysion eraill, arllwyswch ef dros y sglodion, a rhowch y cyfan yn y ffwrn ar wres cymhedrol am 25 munud. Yna rhowch y bocs tân gwyllt ar silff uchaf y ffwrn, a throwch y gwres i fyny, cyn gadael y gegin ar frys.

**Cofiwch: mae chwarae â thân yn beryglus iawn, felly gwnewch yn siwr bod oedolyn gyda chi yn y gegin.**

**Os digwydd bod rhaid i chi goginio'r pryd hwn yn eich cartref eich hunan, cofiwch roi gwybod i'r frigad dân a'ch cwmni yswiriant mewn da bryd.*


## Yn eisiau ar frys!

**Cynorthwydd: Ysgol Feithrin Heol Kelston**
**Cysylltwch â Diana Evans 0222 623628**

**Arweinydd/Cynorthwydd: Cylch Meithrin Llandŵ**
**Cysylltwch â Delyth Allen 0656 79625**

**Cynorthwydd: Cylch Meithrin Llanilltud Fawr**
**Cysylltwch ag Isabel Lyddon 0446 793684**

## Ar Werth

**Caernarfon**
**Tŷ teras braf,**
**dwy lofft a gardd**


**Ffoniwch**
**0979 611553 (nos)**
**neu 0222 711681**

gwesty
LLETY CYMRO
hotel

**143 Cathedral Road,**
**Caerdydd CF1 9PJ**
**Ffôn 0222 399659**
**Gwesteion 0222 374494**
**Perchnogion: Gwenda a Glyn Jones**


# CROESAIR AP LEWSYN

## Rhif 114 Tachwedd 1991



**Ar Draws**

1. Hawyr bach! Codid trefn i osgoi cysylltiad agos (4,1,3,5)
8. Un trachwantus a welir yn y loffa (4)
9. Dymchwel y ddysgl fas yn feiddgar (3)
10. Y twrch a fyddai yn mynd i guro ac i ddifwyno (6)
11. Mae trwbl yn blino Ann, ond nid yw hi am fynd ar ofyn neb (10)
13. Un o'r genedl, ond nid cenedl-ddyn mohonob (4)
14. Egni sy'n achosi tyndra (6)
16. Buwyd yn ddrwgdybus (4,4)
19. Un o'r fflur (8)
22. Cyrraedd y fan hon (3,3)
25. Tad y Caldeaid (4)
26. Prif gynheilydd yr Hen Gorff yn dangos dewrder moesol (6,4)
27. Rhoddaf gefnogaeth hefyd i'r caletaf oll (6)
28. Pa un sy'n pwyso? (3)
29. Cymrwch ofal o'r un diwethaf (4)
30. Y gwas glwth a'i lu sydd bob amser yn afreolus (3,4,1,5)

**I Lawr**

1. Dyma le crand i osod almanac (7)
2. Achlysur iti golio am Dad a'th gysylltiadau eraill, (dros hanner cant ohonynt) (7)
3. Gwneud celfi'r chwaraewyr o reffynnau wedi'u datod (9)
4. Tyfiant yn Llwyn Onn (3)
5. Safle'r *skyscraper* cyntaf... (5)
6. ...a'r uchaf! (7)
7. "Preswylydd mawr y berth ——— eto nerth," (Morgan Rhys) (7)
12. Oen gwyn aflonydd, am fod eisiau bwyd arno (7)
15. Fancw! (3)
17. Er gwaethaf stranciau'r stiwdants, o roi trefn ar drefi dysg, gellid eu cael yn llonydd (9)
18. Rhagor, bellach (3)
20. Y wlad tu allan i Aberhonddu (7)
21. Dialedd Bob yn troi yn weithred o fwrw allan (7)
23. Yn ddiwyd yn y practis? (7)
24. Yr ego Cymraeg? (7)
26. Fe all ddafad fywiog ymddangos yn hanner marw (5)
28. Un iawn i droi'r ardd (3)

**Cystadleuaeth Rhif 113**

Derbyniwyd ugain ymgais. Yr oedd rhyw wall mân yn naw ohonynt, ond yr un-ar-ddeg arall yn hollol gywir. Wele enwau y rhai cywir: Eira Jones, Cathays; Michael Francis, Casnewydd; John Hughes, Llanisien; Heledd Hall, Treganna; Carys Humphreys, Bangor; Dilys Gunston, Penylan; BH, Cyncoed; D Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; Idwal Hughes, y Mynydd Bychan; Mair Tysul Jones, Yr Eglwys Newydd; Meurig Thomas, y Rhâth.

Enw Mr John Hughes a ddaeth ar hap o'r pentwr ac felly iddo ef yr aiff tocyn llyfr y mis hwn.

**Cystadleuaeth Rhif 114**

Tocyn llyfr £5 eto. Rhowch enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair, a'i yrru i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn 20 Tachwedd os gwelwch yn dda.

**Datrysiad Rhif 113**



## y Calendar

**4 TACHWEDD**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys: Holl Gerddoriaeth

**5 TACHWEDD**
Cymdeithas Minny Street. Noson yng ngofal Aled Gwyn

Cymdeithas y Tabernacl: dysgu Cymraeg yn Awstralia – John Albert Evans

**6 TACHWEDD**
Darlith Goffa G J Williams gan yr Athro Emeritws AOH Jarman: Y Gododdin. Adeilad y Dyniaethau, Coleg Caerdydd 6pm

Merched y Wawr Radur a'r Cylch. Pryd ar Frys – cogionio gyda meicrodon. Ann Ladd. Festri'r capel Methodistaidd, Radur, 7.30pm

**8 TACHWEDD**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd. Noson gerddorol gan Eilonwy Jones

**11 TACHWEDD**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Ymweliad Cangen Casnewydd

**12 TACHWEDD**
Cymdeithas y Tabernacl. Penny Readings

**15 TACHWEDD**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Llyfrau Erchwyn Gwely gan Cynthia Saunders Davies

**16 TACHWEDD**
Côr Philharmonig Caerdydd yn Neuadd y Brifysgol, Heol Corbett am 7.30pm. Offeren yn C Leiaf, Mozart

**18 TACHWEDD**
Clwb Ifor Bach. Cymdeithas Carnhuanawc: Caerdydd a'r Iaith, Owen John Thomas

**19 TACHWEDD**
Cymdeithas y Tabernacl. Dau o Feibion Môn, gan Eira Milton Jones a Sioned Thomas

Cymdeithas Minny Street. Mary Wiliam

**20 TACHWEDD**
Clwb Cam Ymlaen: Tŷ'r Cymry

Clwb Ifor Bach. Geraint Lovgreen

**22 TACHWEDD**
MYM ac Ysgol Feithrin Nant Lleucu. Cyngerdd gan Caryl Parry Jones, Myfyr Isaac, Dewi Pws ac Emyr Wyn. 8pm Canolfan Channel View. Tocynnau £5. Manylion 485504 neu 494791

**23 TACHWEDD**
Cylch Meithrin y Tyllgoed. Bws Siopa Dolig i Gaerfaddon. £5. Manylion 552393

**26 TACHWEDD**
Cymdeithas y Tabernacl. Canu cloch, Margaret Hemmings

**29 TACHWEDD**
Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro. Noson y Gwragedd. Gwestai Carys Williams

**3 RHAGFYR**
Cymdeithas y Tabernacl. Mozart a Salzburg 1991. TJ Rhys Jones ac Eilonwy Jones

Cymdeithas Minny Street. Noson yng ngofal Eirys Eckley

**6 RHAGFYR**
Cymrodorion Caerdydd yn Festri'r Tabernacl am 7.15pm. Noson ffilmiau gan Ifor Rees

**7 RHAGFYR**
Côr Polifonig Caerdydd, yn canu'r Meseia yng nghapel United Reform, Victoria Road, Casnewydd (ger Cadeirlan St Gwynllyw) am 7.30pm. Tocynnau £5. Elw'r noson at gapel Cymraeg Mynydd Seion, Casnewydd

Ffair Nadolig Ysgol Glantaf. 1.30pm Neuadd yr Ysgol Uchaf

**Manylion ar gyfer y Calendar at Lynn Jones, ffôn 562816**

# YR YMGYRCH LOSGI A'R PAPUR BRO

## DIM OND HENO
## CWMNI THEATR GWYNEDD
## SHERMAN 11-12 TACHWEDD

BYDD DRAMA fuddugol cystadleuaeth Tlws y Ddrama Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn yn cyrraedd Caerdydd ymhen ychydig.

Perfformir *Dim Ond Heno*, gan Gwion Lynch, yn y Sherman ar nos Lun a nos Fawr 11 a 12 Tachwedd.

Disgrifiwyd y ddrama fel un fywiog, ac yn ymdrin â'r problemau sy'n wynebu criw o bobol sy'n gysylltiedig ag argraffdy prysur yng ngefn gwlad y Gogledd lle cyhoeddir papur bro *Y Dderwen*.



◆ Gwion Lynch

Mae pynciau fel mewnfudo ac agwedd y cymeriadau tuag at yr ymgyrch losgi, yn ogystal â gweithgareddau'r grŵp o eithafwyr Seisnig The Sons of George, oll wedi eu plethu'n gywrain i blot y stori, gyda thriongl carwriaethol yn cymhlethu'r cyfan.

Cyfarwyddwr *Dim Ond Heno* yw Graham Laker, Cyfarwyddwr Artistig Theatr Gwynedd, a gafodd lwyddiant ysgubol gyda'i gynhyrchiadau *Leni* a *Y Gelli Geirios*, ac mae cast y ddrama yn cynnwys Alun Elidyr, Gwen Ellis, Dafydd Emyr, Nia Medi, Delyth Morgan, a Yoland Williams.

# LLESTRI'R DRESEL AR DDANGOS



◆ Alun Davies, Ceidwad Cynorthwyol, a Matthew Williams a'u casgliad llestri

AR DDANGOS ym mhrif adeilad yr Amgueddfa Werin ar hyn o bryd mae casgliad o lestri a welwyd ar ddreseli led led Cymru.

Rhoddwyd y casgliad i'r Amgueddfa gan y diweddar Dr Gerald James a aned yn Nhreherbert, ac a weithiodd am 30 mlynedd fel meddyg yn Llundain.

Gydol ei oes casglai amrywiaeth helaeth o grochenwaith llestri a fyddai'n ei atgoffa o'i blentyndod yng Nghymru.

Rhoddwyd trefn ar yr arddangosfa gan Matthew Williams sy'n geidwad y casgliadau yng Nghastell Caerdydd, gan ymchwilio, disgrifio a dyddio pob un o'r darnau.

Llestri gloyw yw tua hanner y casgliad, a llestri tyddyn Abertawe yw'r gweddill, sy'n cynnwys llestr hufen lliwgar ar ffurf buwch a wnaed gan Grochendy Morgannwg tua 1849.

Meddai Williams "mae llestri hufen fel hyn yn gau y tu mewn gyda chaead yn agor yng nghefn y fuwch, a daw'r hufen allan drwy geg yr anifail. Dyma un o'r mathau mwyaf anodd erioed i'w golchi, ond mae'n eitem difyr a deniadol ac mae'n un o'm ffefrynnau i".

# ATGYFODI GWRTHRYFEL Y SAER DOLIAU

## ARAD GOCH
## SHERMAN 6-7 RHAGFYR

BUM MLYNEDD ar hugain wedi'r perfformiad cyntaf dadleuol o *Saer Doliau* gan Gwenlyn Parry, mae cwmni Arad Goch yn ei chyflwyno hi eto yn arena y Sherman ddechrau mis Rhagfyr.

Syfrdanwyd Cymru pan berfformiwyd y ddrama gyntaf ym 1966, ond fel pob alegori da, drama oesol yw hon sydd heb ffiniau lle nac amser. Mae ei themâu yr un mor bwysig, a'i her yr un mor gryf yn awr ag oeddent chwarter canrif yn ôl.

Yn ôl Gwenlyn Parry, mae Saer Doliau yn "alegori am wrthryfel cymdeithasol. Gall y gwrthryfel fod rhwng dwy genhedlaeth, rhwng dyn ac amgylchedd sydd yn newid yn rhy gyflym iddo, neu rhwng dyn a Duw".



Rhan bwysig o waith Arad Goch yw cyflwyno gwaith theatr gyfoes a chyffrous i bobol ifanc. Bydd y cynhyrchiad hwn o *Saer Doliau* yn un gafaelgar a bywiog, ac hefyd yn gyfle i'r sawl welodd y cynhyrchiad gwreiddiol gael blas arall ar un o ddramau cyfoes gorau Cymru.

Ymhlith y cast mae Wynfford Elis Owen yn rhan Ifans y Saer, sy'n dychwelyd i'r llwyfan ar ôl ugain mlynedd o waith teledu. Gwen Lasarus yw'r Ferch, a Rhys Bleddyn yw'r Llanc, gyda Jeremy Turner yn cyfarwyddo.

# Y BUDDUGWR CYNTAF YNG NGWOBRWYON BAFTA CYMRU



O'r chwith i'r dde: Robert Evans, Simon Fenhoulet, Cywaith Cymru, Peter Phillips, BAFTA Cymru

NEUADD FAWR Undeb Coleg Prifysgol Cymru, Caerdydd fydd yr atynfa ar nos Sadwrn 30 Tachwedd ar gyfer lliaws o bobol Caerdydd a Chymru gyfan, pan fydd BAFTA Cymru yn cyflwyno am y tro cyntaf erioed eu Gwobrwyon Ffilm a Theledu.

Bydd y Seremoni Wobrwyo yn cynnwys 26 o gategorïau crefft, perfformio a chynhyrchu ac yn rhoi sylw i'r gorau o'r cynyrchiadau ffilm a theledu yng Nghymru dros y flwyddyn a fu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn cyflwyno'r Seremoni fydd yr actorion Siân Phillips a Stifyn Parri.

A dyhead nifer o'r cynhyrchwyr, technegwyr, perfformwyr ac artistiaid yno fydd gadael y Neuadd Fawr ar ddiwedd y noson â thlws gwobrwyon mwyaf diweddar BAFTA yn eu llaw, yn barod ar gyfer eu silff ben tân.

Yn gynharach eleni cynhaliwyd cystadleuaeth gan BAFTA Cymru a Chywaith Cymru i ddod o hyd i artist i gynllunio'r tlws ar gyfer y seremoni wobrwyo, ac o'r holl geisiadau a dderbyniwyd, detholwyd cynllun gan Robert Evans o'r Barri.

Treuliodd Robert Evans tua ugain mlynedd yn gweithio yn y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant yn cynllunio a bathu arian a medalau.

Yn ddiweddar cychwynodd ar gynhyrchu crochenwaith fel cyfwng mwy cyffrous ac amgenach i efydd. Dywedodd bod "crochenwaith yn rhoi rheolaeth greadigol gyflawn dros y gwneuthuriad i mi, o ddewis y cynllun a'r cyfrwng, i dechnegau tanio a gwydro".

Mae cynllun y tlws buddugol, cerflun cain o lestr pridd wedi ei wydro, yn rhoi hunaniaeth Gymreig gref i Wobrwyon BAFTA Cymru.

Bydd cyfle i bawb gael rhannu yn y dathlu ddydd Sul, 1 Rhagfyr, pan fydd BBC Cymru yn darlledu eu recordiad o'r Gwobrwyon.


# SIÂN PHILLIPS WRTH EI BODD Â'R SHERMAN

WRTH LANSIO Theatr y Sherman ar ei newydd wedd ddydd Llun 21 Hydref, cyhoeddodd yr actores Siân Phillips, noddwr y Theatr, ei bod "wrth fy modd" â'r lle.

Bu'r actores enwog, sydd wedi gweithio ar lwyfannau gorau Prydain, yn disgrifio'r cyntedd newydd fel "lle hyfryd, croesawgar a chyfeillgar sy'n haeddu unig gwmni theatr parhaol de Cymru".

Mae'r adeilad newydd pwrpasol bellach yn cynnwys tŷ bwyta'r Venue, bar, swyddfa docynnau, siop, llwyfan arbennig ar gyfer perfformiadau yn y cyntedd, ac ystafelloedd croesawu.

"Mae'n anodd dychmygu sut wnaed y fath newidiadau" dywedodd Siân Phillips, "ond mae'r newid yn mynd law yn llaw ag adfywiad y Sherman dros y ddwy flynedd ddiwethaf".




Cyntedd newydd Theatr y Sherman


Arad Goch
CWMNI THEATR DYFED

yn cyflwyno



**Saer Doliau**

gan Gwenlyn Parry.

gyda Wynford Ellis Owen,
Rhys Bleddyn a Gwen Lasarus
Cyfarwyddwr – Jeremy Turner
Cynllunydd – Steve Mattison

**Arena Theatr y Sherman, 6 a 7 Rhagfyr**
*Swyddfa Docynnau 0222 396844*



yn cyflwyno
Drama Fuddugol Cystadleuaeth Tlws y Ddrama
Eisteddfod Bro Delyn

**DIM OND HENO**

gan Gwion Lynch

yn Theatr y Sherman, Caerdydd
nos Lun a nos Fawrth
11-12 Tachwedd am 7.30yh
Swyddfa Docynnau: Caerdydd (0222) 230451

CLWB IFOR BACH CAERDYDD

11 Stryd Womanby, Caerdydd CF1 2BR

**DARLITHOEDD**

Tachwedd 11: **Dŵr – Beth, Pam a Sut: Dr Deri Tomos**, CPC Bangor, 7.30 yh

18 Tachwedd: **Caerdydd a'r Iaith: Owen John Thomas**, 8.00yh

2 Rhagfyr: **Rhywle dros yr Enfys: Geraint Wyn Jones**, CPC Caerdydd, 7.30yh

**ADLONIANT**

23 Tachwedd: **Geraint Lovgreen a'r Enw Da**: 9.30yh

30 Tachwedd: **Ail Symudiad**: 9.30yh

5 Rhagfyr: **Parti Nadolig CYD De Morgannwg**: 8.00yh

11 Rhagfyr: **Y Profiad** a disgo; 9.00yh

13 Rhagfyr: **Mynediad am Ddim**: elw i Bopath Cymru, 8.30yh

14 Rhagfyr: **Dafydd Iwan a'r Band**: 8.30yh

★★★ Y dyddiadau uchod i gyd wedi eu cadarnhau! ★★★
★★★ Ar gyfer 23 Tachwedd; 5, 13, 14 Rhagfyr ★★★
archebwch eich tocynnau o flaen llaw i osgoi siomiant
★★★ Prisiau bar rhad i aelodau cyn 11.00yh (Llun - Sadwrn) ★★★
★★★ Dyddiadau eraill o adloniant i'w cadarnhau ★★★

**0222 232199**



DAWNS, CERDD, DIWYLLIANT, IAITH

**CHAPTER**

NOS IAU 14 tan NOS SADWRN 16
TACHWEDD AM 8.00PM

·CWMNI DAWNS·
*Camre Cain*

a

**JESS**

yn cyflwyno

**RHIF 1 UN**

cynhyrchiad cyffrous o ddawns a cherddoriaeth gyfoes
swyddfa docynnau 0222 399666



BAFTA CYMRU

*Anrhydedd i BAFTA Cymru yw cyflwyno*
*am y tro cyntaf erioed y*
***Gwobrwyon Ffilm a Theledu***
***BAFTA Cymru***
*yn Neuadd Fawr Undeb y Brifysgol*
*Caerdydd, nos Sadwrn 30 Tachwedd*
*a dymuno pob llwyddiant i'r holl Enwebeion*

MAE AELODAETH BAFTA CYMRU YN AGORED I
UNRHYW UN YNG NGHYMRU SYDD Â PHROFIAD GWAITH
TAIR BLYNEDD O LEIAF O'R DIWYDIANT FFILM NEU DELEDU

BAFTA CYMRU
CHAPTER, STRYD Y FARCHNAD, TREGANNA, CAERDYDD CF5 1QE
FFÔN 0222 223898 FAX 0222 664 189

*BAFTA Cymru is proud to be presenting*
*the first ever*
***BAFTA Cymru***
***Film and Television Awards***
*at the Great Hall, University Union*
*Cardiff, Saturday 30 November*
*and wishes all Nominees every success*

MEMBERSHIP OF BAFTA CYMRU IS OPEN TO ANYONE IN
WALES WITH AT LEAST THREE YEARS' EXPERIENCE WORKING
IN BROADCAST TELEVISION OR IN THE FILM INDUSTRY

BAFTA CYMRU
CHAPTER, MARKET ROAD, CANTON, CARDIFF CF5 1QE
TELEPHONE 0222 223898 FAX 0222 664 189